

Dysgu ac addysgu neu berfformiad a chyfarwyddyd?

Datblygwyd y deunyddiau hyn fel rhan o syniadau grŵp dylunio ar y cyd Camau i'r Dyfodol am ddylunio cwricwlwm sy'n ymwneud â phroses a beth mae hyn yn ei olygu o ran y ffordd rydym yn mynd ati i addysgu a dysgu. Mae symud i ffwrdd o ddull addysgu sy'n seiliedig ar amcanion yn golygu meddwl am y gwahaniaethau rhwng dysgu a pherfformiad a'r gwahaniaeth rhwng addysgu a chyfarwyddyd. (Mae dull sy'n seiliedig ar amcanion yn tueddu i feddwl am addysgu a dysgu yn nhermau chyfarwyddyd a pherfformiad.)

Rydym yn dechrau drwy grynhoi adolygiad llenyddiaeth gan Soderstrom a Bjork, cyn ystyried papur gan Alexander, Schallert a Reynolds. Mae'r adolygiad yn edrych ar ddysgu a pherfformiad o safbwynt seicoleg wybyddol; mae'r papur yn cymryd safbwynt mwy cyfannol gan ystyried dysgu yn fwy eang. Nod y syniadau i'w hystyried yw eich helpu i fyfyrion ar eich arferion yn nhermau'r gwahaniaethau rhwng dysgu a pherfformiad, addysgu a chyfarwyddyd yn dilyn yr hyn a drafodwyd yn Seminar 2 ('Ailfeddwl am asesu: o fesur perfformiad i gefnogi dysgu').

Adrannau

Dysgu ac addysgu neu berfformiad a rhoi chyfarwyddyd?.....	1
1 Dysgu yn erbyn Perfformiad: Adolygiad Cyfunol	2
1.2 Syniadau i'w hystyried	2
2 Beth yw dysgu beth bynnag?	2
2.1 Syniadau i'w hystyried	3

1 Dysgu yn erbyn Perfformiad: Adolygiad Cyfunol

Nicholas C. Soderstrom a Robert A. Bjork (2015). Perspectives on Psychological Science 10(2): 176–199.

Mae'r awduron yn disgrifio dysgu fel 'newidiadau cymharol barhaol o ran dealltwriaeth, a sgiliau'. Fodd bynnag, maent yn mynd ymlaen i ddweud, 'chyfarwyddyd neu [yn ystod] proses hyfforddiant ... yr hyn y gallwn ei weld a'i fesur yw perfformiad, sy'n aml yn fynegai annibynadwy i ddangos a yw'r newidiadau cymharol hirdymor sy'n gyfystyr â dysgu wedi digwydd'.

Yna mae'r awduron yn gwneud y pwyntiau canlynol:

- Mae dysgu yn cyfeirio at wybodaeth a sgiliau 'gwydn' a hyblyg: h.y. maent yn dal i fod ar gael yn y tymor hir (hyd yn oed ar ôl cyfnodau pan nad yw'r wybodaeth a'r sgiliau yn cael eu defnyddio) ac mae modd eu defnyddio mewn gwahanol gydestrunau (nid y rhai lle cawsant eu dysgu yn unig).
- Mae perfformiad yn cyfeirio at ymddygiad y gellir arsylwi arno pan fyddant yn dilyn chyfarwyddyd, neu'n fuan ar ôl iddynt gael eu dysgu drwy ddilyn chyfarwyddyd.
- Gall dysgu ddigwydd pan na fydd unrhyw newidiadau amlwg o ran perfformiad.
- Nid yw gwelliannau mewn perfformiad yn arwain at ddysgu bob amser.
- Mae ymchwil seicolegol yn awgrymu mai 'yn aml, yr amodau sy'n cynhyrchu'r nifer mwyaf o gamgymeriadau wrth gaffael [gwybodaeth] yw'r union amodau sy'n arwain at ddysgu fwyaf.'

1.2 Syniadau i'w hystyried

Yn eu herthygl, mae Soderstrom a Bjork yn cyfeirio at astudiaethau ym maes seicoleg wybyddol yn unig ac mae eu trafodaeth am 'gyfarwyddiadau' yn rhagdybio dull sy'n cael ei arwain gan athro. Fodd bynnag, gall eu cwestiwn am ddysgu neu berfformiad ein helpu i feddwl am natur dysgu a'n rôl fel athrawon:

- Ar sail eich profiadau a'ch gwybodaeth broffesiynol, beth yw'r gwahaniaethau rhwng dysgu a pherfformiad yn eich barn chi?
- Ar ba feysydd yn y cwricwlwm (os o gwbl) y gallech chi ganolbwyntio'n briodol ar berfformiad yn hytrach na dysgu (neu'n ogystal â dysgu)? Beth yw eich rhesymau dros ddweud hyn?

2 Beth yw dysgu beth bynnag?

Patricia A. Alexander, Diane L. Schallert a Ralph Reynolds (2009). Educational Psychologist, 44:3, 176-192.

- Mae dysgu yn broses amlddimensiynol sy'n arwain at newid(iadau) cymharol barhaol yn yr unigolyn.
- Mae'r newidiadau yn dylanwadu ar y ffordd mae'r unigolyn yn gweld y byd ac yn ymateb iddo'n gorfforol, yn seicolegol, ac yn gymdeithasol.

- Mae'r broses ddysgu yn seiliedig ar 'y berthynas ddynamig a rhyngweithiol' rhwng y dysgwr a'r hyn sy'n cael ei ddysgu (ar adeg a lle penodol, a thros amser).

2.1 Syniadau i'w hystyried

- Beth yw'r gwahaniaethau rhwng addysgu a chyfarwyddyd yn eich barn chi?
- I ba raddau rydych chi i) yn addysgu i gefnogi dysgu neu ii) cyfarwyddo ar gyfer perfformiad? I ba raddau mae'r dull rydych chi'n ei ddefnyddio yn briodol i ddatblygiad dysgwyr a pham?